19 Gorffennaf 2016

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Polisi cyhoeddedig newydd ar Gapio Ffioedd a pholisïau Apeliadau Rheoliadol a Chymryd Camau pan aiff pethau o chwith diwygiedig

O heddiw ymlaen, mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi tri pholisi interim:

- Polisi apeliadau rheoliadol
- Cymryd camau pan aiff pethau o chwith
- Polisi capio ffioedd

Mae'r polisïau hyn yn rhan o gyfres o bolisïau monitro a chwynion. Mae Cymwysterau Cymru yn datblygu Polisi Cwynion Corfforaethol a bydd yn datblygu Polisi Cosbau Ariannol yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y rheoliadau ar gyfer rhoi cosbau ariannol ar waith. Mae Cymwysterau Cymru yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyfun ar gyfer yr holl bolisïau monitro a chwynion unwaith y byddant wedi'u datblygu. Bydd y dull hwn o weithredu yn rhoi'r cyfle i gyrff dyfarnu ystyried yr holl bolisïau cydgysylltiedig ar yr un pryd. Fel y cyfryw, rydym yn cyhoeddi'r polisïau interim hyn ond rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyfun lle mae'r polisïau cwynion corfforaethol a chosbau ariannol wedi cael eu datblygu.

Mae **apeliadau rheoliadol** wedi'i ddiwygio o fersiwn 1 i gynnwys:

- Eglurhad o gwmpas y polisi
- Cam adolygu mewnol er mwyn galluogi Cymwysterau Cymru i roi rhwymedi prydlon lle y bo'n briodol
- Rhagor o fanylion yng nghamau'r broses a chyfrifoldebau
- Cyflwyno sail i apelio ar gyfer y cam adolygwr annibynnol (mewn amgylchiadau lle na nodir hyn yn y Ddeddf)
- Yr angen i wneud darpariaeth ar wahân ar gyfer meysydd a nodir o dan Atodlen 3 o'r Ddeddf fel rhai y mae angen adolygiad annibynnol arnynt.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.cymwysteraucymru.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

Mae **cymryd camau pan aiff pethau o chwith** wedi'i ddiwygio o fersiwn 1 i gynnwys:

- Cwmpas y polisi
- Y pwerau a roddwyd gan Ddeddf Cymwysterau Cymru

Mae **Capio Ffioedd** yn bolisi newydd sy'n egluro o dan ba amgylchiadau y gall Cymwysterau Cymru osod terfyn ar y tâl y gall corff dyfarnu ei godi mewn perthynas â dyfarnu cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus sydd wedi'u cymeradwyo neu wedi'u dynodi gan Cymwysterau Cymru o dan Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015.

Yn gywir

Laura Porter
Pennaeth Polisi Strategol